Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Uwch Beiriannydd, Dylunio ac Adeiladu

(Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol)

Gwybodaeth Swyddi Gwag

Manylion yr Hysbyseb

Teitl y Swydd: Uwch Beiriannydd, Dylunio ac Adeiladu
Lleoliad: Wedi'i lleoli yn Bodelwyddan / Gweithio gartref
(bydd angen teithio ar hyd a lled Sir Ddinbych ar gyfer y swydd hon)
Cyflog: Gradd 11, £45,718 – £49,764
Oriau: 37 awr yr wythnos
Contract: Parhaol

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y swydd hon, cysylltwch â Andy Clark ar 01824 712140.

Llinell amser recriwtio	
Dyddiad cau:	2 Ebrill 2024
Dyddiad cyfweliad:	I'w gadarnhau
Dyddiad dechrau:	Cyn gynted ag y bo'n ymarferol

Sut i wneud cais

I wneud cais am y swydd wag gyffrous hon, llenwch y ffurflen gais ar-lein ar ein gwefan www.sirddinbych.gov.uk.

Amlinellwch ar eich ffurflen gais sut rydych chi'n cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd hon yn eich datganiad ategol.

Rydym hefo'r hawl i gau'r swydd hon yn gynnar os rydym yn derbyn digon o geisiadau am y rôl. Felly, os oes gennych ddiddordeb, gyrrwch eich cais mor gynnar â phosibl.

Am ddulliau eraill o wneud cais cysylltwch â'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar 01824 706200.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, fe ddylech chi gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

Cydraddoldeb

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a Safonau'r Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw ffurflen gais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na ffurflen gais a gyflwynir yn Saesneg.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Mae hwn yn gyfle unigryw i ymuno â thîm deinamig a blaengar mewn awdurdod sy'n meddwl i'r dyfodol.

Mae'r Uned Waith yn rhan o Adran Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych, ac mae ganddi enw da am ddarparu nifer o brosiectau peirianneg sifil amrywiol o fewn y sir, ond gan ganolbwyntio yn bennaf ar gynlluniau gwella a diogelwch mewn perthynas â Phriffyrdd Sir Ddinbych yn ogystal â Chefnffyrdd ledled Gogledd Ddwyrain Cymru.

Croesawir ceisiadau gan Uwch Beirianwyr Sifil a Phriffyrdd profiadol sy'n awyddus I ddatblygu eu gyrfaoedd yn y maes peirianyddol. Mae'n rhaid i ymgeiswyr feddu ar gymwysterau cydnabyddedig mewn disgyblaethau yn ymwneud â phriffyrdd/peirianneg sifil, ynghyd â phrofiad helaeth ôl-gymhwyso yn dylunio, goruchwylio a rheoli prosiectau cynlluniau gwella priffyrdd/seilwaith.

Beth sy'n gwneud Cyngor Sir Ddinbych yn le gwych i weithio?

Credwn y dylai gwaith caled ac ymrwymiad ein staff gael eu gwobrwyo'n briodol. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fanteision i helpu ein gweithwyr i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, datblygu yn eu gyrfa, a'u cefnogi yn eu gwaith.

- Cyfleoedd gwaith hyblyg ac ystwyth
- Gwyliau blynyddol hael sy'n dechrau ar 26 diwrnod (yn ogystal â gwyliau banc) yn codi gyda hyd y gwasanaeth i gyfanswm o 32 diwrnod
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP)
- Arbedion Ffordd o Fyw trwy DCC Rewards Direct
- Cynllun aberthu cyflog car a chynllun prydlesu ceir
- Ystod o bolisïau cyfeillgar i deuluoedd

I weld y rhestr lawn o'r manteision rydyn ni'n eu gynnig, ewch i'n gwefan:
www.sirddinbych.gov.uk/tal-a-buddion

Swydd-ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Uwch Beiriannydd, Dylunio ac Adeiladu
Graddfa: Gradd 11, £45,718 – £49,764
Gwasanaeth: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Maes Gwasanaeth: Y Grŵp Uned Waith
Yn atebol i: Rheolwr yr Uned Waith
Rhif y Swydd / Dyddiad Cyhoeddi: 04203 / Mai 2022

Categori Iaith Gymraeg: Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol

Pwrpas y Swydd

Ymgymryd â gwaith peirianneg o fewn yr Adran Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol i gyflawni gweithgareddau amrywiol o fewn y Grŵp Uned Waith mewn modd cost effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys gweithredu Rhaglen Gyfalaf Cefnffyrdd a Phriffyrdd y Sir a chynlluniau Gwella ac Adfywio'r Sir yn llwyddiannus.

Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau

Ymchwilio, cynllunio, datblygu a rheoli pob cam o gomisiynau dylunio i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau, manylebau a gweithdrefnau gwirio gofynnol a sicrhau bod gwaith yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys Iechyd a Diogelwch) a rheoli, goruchwylio a chyfeirio staff i sicrhau bod y gwaith a raglennwyd yn cael ei gyflawni o fewn y raddfa a'r gyllideb gytunedig. Cysylltu gyda Chleientiaid mewnol ac allanol gan gynnwys cyflenwyr a chontractwyr ac awdurdodau partner, i ddatblygu trafodaethau mewn perthynas ag agweddau o ddarpariaeth prosiectau.

Rheoli, goruchwylio a monitro Ymgynghorwyr Fframwaith mewn perthynas â chomisiynau Cefnffyrdd a Sirol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau, manylebau a gweithdrefnau gwirio gofynnol a sicrhau bod pecynnau gwaith yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys Iechyd a Diogelwch) a rheoli comisiynau is-ymgynghorwyr i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r briff, rhaglen a'r gyllideb.

Rheoli, goruchwylio, cyfarwyddo a monitro aelodau tîm a benodwyd yn uniongyrchol drwy bob cam o gomisiynau dylunio i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau, manylebau a gweithdrefnau gwirio gofynnol a sicrhau bod gwaith yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys Iechyd a Diogelwch) a bod bob prosiect yn cael ei gyflawni o fewn y raddfa a'r gyllideb gytunedig.

Cydgysylltu'n rheolaidd gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru neu eu Hasiantwyr mewn perthynas â phob comisiwn dylunio Cefnffordd a ddyfarnwyd i Sir Ddinbych drwy System Rheoli Prosiect (PMS) Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, i bennu, datblygu a gweithredu gofynion y Cleient ac i sicrhau rhyddhau cyfrifoldeb y Cyngor Sir fel Prif Grŵp Prosiectau Partneriaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (sy'n cynnwys Siroedd Ynys Môn, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Powys a Wrecsam) yn briodol a bod anghenion Llywodraeth Cymru yn cael eu diwallu. Tendro ar gyfer comisiynau, monitro a diweddaru pob comisiwn ar y System Rheoli Prosiect yn

rheolaidd i sicrhau arfarnu'r Cleient o ran cynnydd a bod Sir Ddinbych yn derbyn y ffioedd gofynnol. Mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru i asesu cynnydd a pherfformiad i'w hymgysylltu yn natblygiad prosiectau allweddol ac i sicrhau fod prosiectau yn cael eu siapio i fodloni'r amcanion polisi ar gyfer y grantiau perthnasol cymaint â phosibl.

Cynrychioli'r Cleient (naill ai Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru neu'r Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol - yn ddibynnol ar y comisiwn) fel Peiriannydd / Rheolwr Prosiect / Goruchwyliwr ar gontractau Peirianneg Sifil a goruchwylio contractau ar eu rhan i sicrhau bod materion peirianneg, cyfreithiol, contract, gweinyddol ac ariannol yn cael eu cwblhau yn unol â dogfennau contract. Bydd dyletswyddau'n cynnwys cyflwyno cyfarwyddiadau rheolwyr prosiect, ymdrin â hawliadau, cytuno ar brisiadau / asesu gwaith diwygiedig / achosion iawndal, prosesu prisiadau / asesiadau dros dro ac asesiadau / cyfrifon terfynol a sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu (lle bo hynny'n berthnasol).

Pan fo angen, cynrychioli'r Cleient fel Arbenigwr Technegol mewn arddangosfeydd, Ymholiadau Cyhoeddus lleol, Llysoedd Ynadon, tribiwnlysoedd ac ati.

Rheoli cyllidebau cynlluniau unigol o fewn yr Uned Waith i sicrhau hyfywedd y gweithrediad a sicrhau bod yr uned fusnes yn gwneud gwarged.

Bod yn gyfrifol am fonitro gwaith a gwblhawyd gan aelodau tîm a benodwyd yn uniongyrchol ar becyn rheoli amser electronig yr Uned Waith a ddefnyddir i lywio adroddiadau am gostau prosiectau yn wythnosol a sicrhau hyfywedd uned fusnes yr Uned Waith.

Monitro ac adolygu gwaith i sicrhau ei fod yn unol â System Rheoli Ansawdd yr Adran Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol.

Monitro, adolygu a diweddaru adrannau o System Rheoli Ansawdd yr Adran Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol sy'n berthnasol i'r Grŵp Uned Waith.

Ymgymryd ag Adolygiadau Adrannol 1 i 1 chwarterol gydag aelodau tîm a benodwyd yn uniongyrchol.

Datblygu a hyrwyddo gwaith y Grŵp Uned Waith i sicrhau boddhad cwsmeriaid.

Dirprwyo i'r Rheolwr Uned Waith yn ôl y gofyn.

Adnoddau / Offer / Deunyddiau

Mae gan y Grŵp nifer uchel o staff gan gynnwys Uwch Beirianwyr, Peirianwyr a Thechnegwyr, ac ymgynghorwyr mewnol neu ymgynghorwyr preifat allanol yn ddibynnol ar gynnwys a llwyth gwaith y prosiectau. Amcangyfrifir gwerth cyfunol o rhwng £5 a £15 miliwn ar gyfer y prosiectau. Fel rheol, bydd deiliad y swydd ynghlwm â chynlluniau gwerth rhwng £5 a £10 miliwn.

Cyllid: Cynorthwyo â rheoli Rhaglen Gyfalaf Cefnffyrdd £50 – £100 miliwn 5 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gogledd Cymru. Cynorthwyo â gweithredu Rhaglen Briffyrdd

y Sir. Cynorthwyo â gweithredu cyllidebau adnewyddu a ariennir drwy grantiau.

Ystadegau: Fel arfer, bydd dros 10 o gynlluniau Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru a hyd at 5 o Gynlluniau Sirol yn cael eu cynllunio neu eu hadeiladu ar y tro.

Goruchwylio / Rheoli Pobl

Uniongyrchol: Goruchwyliaeth o hyd at 3 Peiriannydd / Technegydd, a goruchwyliaeth a rennir o hyd at 2 Beiriannydd / Technegydd.

Anuniongyrchol: Goruchwyliaeth o Ymgynghorwyr a Chyflenwyr a/neu ymgynghorwyr mewnol neu allanol yn ddibynnol ar gynnwys gwaith. Goruchwyliaeth o gontractwyr yn ystod y gwaith adeiladu a chynnal a chadw a fydd yn amrywio yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y cynlluniau sydd ar y gweill. Posibilrwydd o hyd at 20 o weithwyr.

Amodau Gwaith Arbennig

Fe all deiliad y swydd wynebu gofynion sy'n gwrthdaro ac ymyriadau na ellir eu hosgoi sy'n gofyn am ailflaenoriaethu gwaith a gwaith sydd â therfynau amser sy'n golygu problemau, amgylchiadau neu ofynion heriol.

Fe fydd deiliad y swydd wedi ei leoli yn y swyddfa yn bennaf ond gydag ymweliadau safle rheolaidd i leoliadau ar ymyl ffyrdd a gwaith adeiladu sy'n fyw. Fe fydd yna hefyd adegau pan fydd deiliad y swydd wedi ei leoli ar safle pan fo prosiectau adeiladu mawr a chynlluniau gwella yn digwydd.

Fe ddylai ymgeiswyr fod ar gael i weithio oriau anghymdeithasol mewn sefyllfaoedd o argyfwng neu sefyllfaoedd wedi eu cynllunio a bod â'r gallu corfforol i ymweld â safleoedd adeiladu, weithiau mewn lleoliadau ynysig ac anodd.

Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd feddu ar radd mewn Peirianneg Sifil neu dylai fod yn awyddus i weithio tuag at ennill cymhwyster mewn disgyblaeth gysylltiedig.

Bydd deiliad y swydd yn meddu naill ai ar gymhwyster Cynllun Asesu Ansawdd a Dyfarniadau Peirianneg Sifil neu gymhwyster Prif Ddylunydd Dylunio a Rheoli Adeiladu.

Bydd deiliad y swydd yn meddu ar sgiliau Rheoli Prosiectau rhagorol, a byddai cymhwyster Rheoli Prosiectau neu aelodaeth o APM (neu rywbeth cymeradwy tebyg) yn ddymunol. Dylai deiliad y swydd hefyd feddu ar wybodaeth drylwyr o'r diwydiant adeiladu, yn arbennig peirianneg sifil trwm a/neu drefol, deunyddiau a thechnegau, a phrofiad helaeth o safleoedd adeiladu. Mae'r gallu i ddelio gydag ystod eang o bobl a sefyllfaoedd mewn modd diplomyddol ac effeithiol yn hanfodol.

Bydd deiliad y swydd yn meddu ar brofiad perthnasol sylweddol o ddarparu rhaglenni/prosiectau mewn amgylchedd peirianneg/adeiladu.

Sgiliau goruchwylio a chyfathrebu rhagorol, y gallu i weithio'n dda mewn tîm ac arwain timau

prosiect mewn modd cadarn.

Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd feddu ar gymhwyster cydnabyddedig yn y maes priffyrdd/peirianneg sifil neu feddu ar gymhwyster proffesiynol perthnasol, ynghyd â phrofiad helaeth diweddar yn dylunio, goruchwylio a rheoli prosiect cynlluniau gwella priffyrdd/seilwaith.

Fe fydd angen i ddeiliad y swydd fod mewn cyswllt rheolaidd gyda'r Aelod Arweiniol, aelodau etholedig, y tîm Cyfathrebu a Marchnata a'r uwch reolwyr i reoli prosiectau a'r materion cysylltiedig yn rhagweithiol ac effeithiol. Mae'r gallu i gyfathrebu'n ddiplomyddol ac yn effeithiol gydag Aelodau Etholedig, Uwch-Reolwyr, Cleientiaid, Ymgynghorwyr, a Chontractwyr mewn dull proffesiynol a thechnegol neu annhechnegol yn angenrheidiol. Dylai deiliad y swydd fod ag empathi at y Gymraeg a diwylliant Cymreig.

Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion cam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff cam-fanteisio ei adnabod.

Gweledigaeth / Cyd-destun

Cynllunio, rheoli a chwblhau astudiaethau hyfywedd, gwaith dylunio manwl, paratoi contractau a goruchwylio safleoedd unrhyw gomisiwn Cefnffyrdd neu waith Sirol. Cyfrannu at ddatblygu polisïau ac amcanion cyffredinol y Grŵp Uned Waith i sicrhau gweithrediad effeithiol yr Adran. Mae'r swydd hon yn darparu cefnogaeth hanfodol i Raglenni Priffyrdd a Chyfalaf Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar lefel safle, i sicrhau bod gwaith adeiladu a chynnal a chadw yn cael ei gwblhau i'r safon ddymunol a bod y gwerth gorau'n cael ei gyflawni.

Fe fydd deiliad y swydd yn cymryd rôl arweiniol mewn dylunio, rheoli, goruchwylio a blaenoriaethu gwaith; ac fe fydd ganddo'r gallu, y weledigaeth a'r ymreolaeth i gynghori ac argymell newidiadau i brosiectau a chynlluniau gwella sylweddol mewn ymateb i amgylchiadau sy'n datblygu i fudd-ddeiliaid allweddol a darparwyr cyllid. Fe fydd hyn yn cynnwys gweithredu a datblygu safonau newydd, a fydd yn effeithio'n sylweddol ar gynnal a chadw yn y dyfodol ac arferion gwaith cysylltiedig, gan gynnwys rhanddeiliaid amrywiol fel Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ddinbych.

Manylion Am Yr Unigolyn

Mae'r Manylion yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol).

	Meini prawf hanfodol	**Meini prawf dymunol**	**Dull Asesu** (Ffurflen Gais / Cyfweliad / Cymwysterau)
1. Addysg A Chymwysterau	Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd feddu ar radd mewn Peirianneg Sifil neu dylai fod yn awyddus i weithio tuag at ennill cymhwyster mewn disgyblaeth gysylltiedig a dylai fod â phrofiad helaeth perthnasol yn dilyn cymhwyso. Cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig megis Prif Ddylunydd/Iechyd a Diogelwch/Rheoli Ansawdd Dylunio a Rheoli Adeiladu.	Statws Corfforedig neu Beiriannydd Siartredig gyda Chorff Proffesiynol perthnasol. Cymhwyster Rheoli Prosiect neu Aelodaeth o APM (neu gorff tebyg wedi'i gymeradwyo).	Ffurflen gais Tystysgrif
2. Profiad Perthnasol	Dylai ymgeiswyr fedru dangos eu bod yn meddu ar sgiliau Rheoli Prosiectau rhagorol. Profiad o Reoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu 2015 gan gynnwys rôl y Prif Ddylunydd Dylunio a Rheoli Adeiladu. Profiad o gyfres NEC4 Canolfan Defnyddwyr Ewropeaidd o Gontractau a pharatoi dogfennau contract. Profiad o reoli contractwyr, ymgynghorwyr a chyflenwyr allanol.	Gwybodaeth am gyfleuster Tracio Cerbydau Autodesk a chyfres o raglenni KeySoft Autodesk (KeySign, KeyPost & KeyLines). Gwybodaeth am MicroDrainage (neu becyn dylunio systemau draenio tebyg). Gweithio o fewn Fframweithiau. Cyfarwydd â threfniadau cyllido Grantiau Awdurdodau lleol. Profiad o weithio i System Rheoli Ansawdd achrededig.	Ffurflen gais Cyfweliad Geirdaon

		Cyfarwydd â dulliau caffael amgen (e,e, Sell2Wales or eTenderWales). Profiad o ddefnyddio Bentley InRoads, AutoCAD mewn 2D a 3D a/neu Civil3D.	
3. Gwybodaeth A Sgiliau Cysylltiedig Â'r Swydd	Dylai deiliad y swydd feddu ar brofiad helaeth yn dylunio cynlluniau gwella priffyrdd / seilwaith. Cyfarwydd gyda phob adran o'r Llawlyfr Dogfennau Contract ar gyfer Gwaith Priffyrdd.	Paratoi cynigion ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Presenoldeb mewn cyfarfodydd / ymchwiliadau cyhoeddus. Cysylltu'n uniongyrchol gydag Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru / LlC / Swyddogion CSDd (Cynghorwyr o bosibl). Cyfarwydd gyda Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.	Ffurflen gais Cyfweliad Geirdaon
4. Nodweddion Personol	Gallu addasu a dangos hyblygrwydd wrth gyflawni prosiectau cymhleth mewn amgylchedd cymhleth a newidiol. Fe fydd angen i ddeiliad y swydd feddu ar sgiliau trafod rhagorol a'r gallu i ymdrin â materion neu unigolion anodd a chynhennus mewn dull digynnwrf a phroffesiynol.	Profiad o waith tîm rhyngddisgyblaethol	Ffurflen gais Cyfweliad Geirdaon
5. Gofynion Eraill	Trwydded yrru gyfredol a llawn a'r gallu i ddefnyddio cerbyd personol neu gerbyd yr Awdurdod i fynychu safleoedd ar draws y Sir, neu ar draws Gogledd Cymru. Empathi at y Gymraeg a diwylliant Cymru.	Rhugl yn y Gymraeg.	Ffurflen gais Cyfweliad



Diolch am eich diddordeb

Cyngor Sir Ddinbych

Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

Facebook: CyngorSirDdinbych

Twitter: @CyngorSDd

Pencadlys: Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN